

Cynnig i gofrestru ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith â Chyngor y Gweithlu Addysg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: **Rebecca Williams**

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

E-bost/rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid anfon yr ymatebion yn ôl erbyn **31 Mawrth 2016** at

Nathan Huish

Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygiad Proffesiynol

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu dylid llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon at:

e-bost: ewc.enquiries@wales.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r cynnig y bydd y gofyniad i gofrestru'n berthnasol i ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n darparu gwasanaethau hyfforddi a dysgu drwy ddarparwr Dysgu Seiliedig ar Waith a gaiff ei gontractio gan Lywodraeth Cymru, fel y nodir ym mharagraff 6.2?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae UCAC o'r farn bod dysgu seiliedig ar waith yn rhan greiddiol a gwerthfawr o system addysg a hyfforddiant Cymru, a bod ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yn rhan ganolog o'r gweithlu addysg. Mae'n rhesymol ac yn rhesymegol felly eu bod yn cael eu trin yn gyfartal, a'u bod yn cael eu cofrestru gan Gyngor y Gweithlu Addysg fel eu cydweithwyr, ac yn derbyn cydnabyddiaeth broffesiynol yn yr un modd.

Cwestiwn 2 – Mae paragraff 6.10 yn nodi'r rolau/teitlau swyddi na fydd yn ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor.

A oes unrhyw deitlau swyddi/rolau eraill a ddylai, yn eich barn chi, gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru a Chyngor y Gweithlu Addysg dan y categori 'ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith'?

Cytuna UCAC â'r cynnig yn 6.10.

Nid ydym yn cynnig unrhyw deitlau swyddi/rolau eraill i'w hychwanegu ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, rhaid bod yn ymwybodol o gymhlethdod y sefyllfa ar lawr gwlad, a'r amrywiaeth eang o ran teitlau, rolau a diffiniadau. Bydd angen gweithio'n ofalus iawn gyda'r sector wrth symud ymlaen gyda'r cynigion hyn.

Cwestiwn 3 – Mae paragraff 6.8 yn rhestru'r rolau penodol ymhlith ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yr ydym o'r farn y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru. A oes unrhyw rolau eraill na chânt eu nodi y mae'r disgrifiad o ymarferwr Dysgu Gydol Oes yn berthnasol iddynt yn eich barn chi?

Cytuna UCAC â'r cynnig yn 6.8.

Nid ydym yn cynnig unrhyw deitlau swyddi/rolau eraill i'w hychwanegu ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, fel uchod, rhaid bod yn ymwybodol o gymhlethdod y sefyllfa ar lawr gwlad, a'r amrywiaeth eang o ran teitlau, rolau a diffiniadau. Bydd angen gweithio'n ofalus iawn gyda'r sector wrth symud ymlaen gyda'r cynigion hyn.

Cwestiwn 4 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: